**EITEM AGENDA: 8**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**23 Hydref 2006**

## DATGANIAD O GYFRIFON 2005-06 A'R LLYTHYR O GYNRYCHIOLAETH

**Adroddiad gan Ken Finch,**
**Trysorydd yr Awdurdod**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Cyflwynwyd y Datganiad o Gyfrifon 2005-2006 i'r Awdurdod Tân i'w gymeradwyo ar 19 Mehefin 2006. Erbyn hyn mae'r cyfrifon wedi'u harchwilio gan yr Archwilydd a benodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, a'u diwygio'n unol â'r casgliadau o'r archwiliad a thrafodaethau dilynol ynghylch manylion paratoi'r cyfrifon, diffiniadau a chyflwyno eitemau penodol o fewn y cyfrifon.

**2.** Ynghlwm i'r adroddiad hwn, fel atodiad 2, mae copi o ohebiaeth rhwng yr Archwilydd Allanol a mi ynglŷn â'r uchod. Mae'r llythyr yn egluro'r rheswm dros y llythyr o gynrychiolaeth.

## Gwybodaeth

**3.** Mae'r diwygiadau i'r cyfrifon yn bennaf yn rhai cyflwyniadol, ond tynnir sylw Aelodau at y pwyntiau canlynol:

a) Mae'r dudalen gynnwys erbyn hyn yn cyfeirio at Adroddiad yr Archwilydd
b) Yn Adran 3 ar dudalen 3 diwygiwyd y symiau a nodwyd o ran gwariant gwirioneddol ar gyfer 2005/06 a'r tanwariant net am y flwyddyn i adlewyrchu'r newidiadau y cytunwyd arnynt wrth baratoi'r cyfrifon ar gyfer yr Archwiliad Mewnol a'r trwyddedau TG.

**Gwybodaeth** *(parhad)*

c) Diwygiwyd ychydig ar Adran 3 (v) ar dudalen 4 er mwyn egluro bod y ddarpariaeth a wnaed o ran caffael gwisg newydd erbyn hyn yn ddarpariaeth gyfalaf yn hytrach na darpariaeth refeniw.

ch) Ail-ysgrifennwyd Adran 4 ar dudalen 4 i adlewyrchu'r cytundeb bod y ddarpariaeth ar gyfer Archwiliad Mewnol yn fwy cywir o safbwynt y Ddarpariaeth Gyllideb gyffredinol. Diwygiwyd y rhan hon hefyd gan gynnwys sylw am gyfrifo pryniant trwyddedau cyfrifiaduron rhwng dwy flwyddyn ariannol.

d) O ganlyniad gwnaed newidiadau ym manylion y Datganiad o Gyfrifon a gwnaed amrywiol nodiadau i adlewyrchu'r sylwadau yn a) i ch) uchod.

dd) Yn Adran 4 ar dudalen 5 ychwanegwyd paragraff yn nodi sefyllfa'r Awdurdod o ran darpariaethau a Safon Adrodd Ariannol 12.

e) Yn Nodyn 1 ar y fantolen, mae 'Ymrwymiadau Cyfalaf' ar gyfer Tendrau Dŵr wedi cynyddu o £226,000.

**4.** Gan fod yr Awdurdod yn cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gydnabod yn ffurfiol y Llythyr o Gynrychiolaeth a anfonwyd at yr Archwilydd Allanol.

**Argymhelliad**

**5.** Bod Aelodau'n

**5.1** cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon diwygiedig ar gyfer 2005-06 (atodiad 1); ac yn

**5.2** cydnabod y Llythyr o Gynrychiolaeth a anfonwyd at yr Archwilydd Allanol.